Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos-Afan

**Marine Drive**
**Sandfields**
**Port Talbot**
**SA12 7NN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos-Afan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos-Afan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 392 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 260 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 78 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 23% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 14.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 53.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/01/2009 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 25/06/2013 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r pennaeth brwdfrydig a'r staff ymroddedig yn gweithio'n hynod effeithiol er mwyn creu hafan ddiogel ac amgylchedd dysgu cynhwysol i'r disgyblion. Un o nodweddion mwyaf effeithiol yr ysgol yw bod staff yn cefnogi lles emosiynol ac yn darparu addysg gyflawn ar gyfer pob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio cyfleoedd a chefnogaeth gadarn i ddisgyblion fod yn uchelgeisiol ac i oresgyn anawsterau er mwyn llwyddo. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn hapus i ddysgu a chymdeithasu gyda'u ffrindiau.

Mae athrawon a'r cynorthwywyr dysgu yn cydweithio'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol sy'n herio disgyblion yn briodol yn y dosbarth ac yn yr ardal tu allan. Mae gan lawer o staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac yn eu helpu i wneud cynnydd cyson dros gyfnod. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau sydd yn caniatáu i ddisgyblion ddysgu gyda chefnogaeth oedolyn ac i gymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau annibynnol. At ei gilydd, nid yw'r gweithgareddau ble mae disgyblion yn dysgu heb gefnogaeth oedolyn yn eu cefnogi i ddysgu hyd orau eu gallu bob tro.

Er bod y pandemig wedi arafu cynnydd disgyblion i siarad Cymraeg yn hyderus ac yn gynyddol gywir, maent yn hynod falch o siarad a dysgu yn yr iaith. Maent yn frwdfrydig i gyfathrebu yn ddigymell yn y Gymraeg yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ystod ysgogol o brofiadau dysgu.

## Argymhellion

A1 Sicrhau disgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Darparu gweithgareddau sydd yn herio pob disgybl i gymhwyso eu medrau i safon uchel ar draws y meysydd dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dwysáu eu dealltwriaeth a chaffael gwybodaeth yn fedrus mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Maent yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn datblygu eu medrau rhifedd a TGCh yn effeithiol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Un o gryfderau'r ysgol yw bod disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn gwneud cynnydd cyson mewn amgylchedd dysgu hynod gefnogol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd ac oedolion yn gyson. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael y Gymraeg yn gyflym, er enghraifft wrth i ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn ganu hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth iddynt drafod chwedl Cawr Baglan. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae mwyafrif yn datblygu eu medrau llafar yn gyson yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ar frig yr ysgol, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus a chydag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa addas wrth gyflwyno gwybodaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cyflwyno areithiau diddorol fel rhan o'u gwaith ar gydraddoldeb: 'Mae pawb yn wahanol ond yn gyfartal', am y gymuned LGBTQ+. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg yn frwdfrydig. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn siarad gan ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith Cymraeg cywir bob tro.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am seiniau llythrennau yn dda gan wneud cynnydd cyson yn eu medrau darllen cynnar. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn adnabod nodweddion llyfrau yn fedrus wrth iddynt drafod cloriau ac enwi awduron llyfrau amrywiol. Wrth i fedrau darllen disgyblion ddatblygu, maent yn eu defnyddio'n effeithiol i gywain a dehongli testunau amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn darllen a chasglu ffeithiau diddorol gan eu cyflwyno mewn taflen wybodaeth am 'Traeth Aberafan yw y lle i fod' fel rhan o'u gwaith ar yr ardal leol. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus wrth ddarllen testun a thrafod ffeithiau fel rhan o'r gweithgareddau darllen amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn darllen testun am foddi Cwm Celyn ac yn ystyried safbwyntiau gwahanol er mwyn cyflwyno dadl am hanes Tryweryn.

Mae llawer o ddisgyblion yn mireinio eu medrau ysgrifennu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ysgrifennu cynnar wrth ffurfio llythrennau yn yr ardal allanol. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn adeiladu ar y medrau hyn yn llwyddiannus wrth ysgrifennu am bwysigrwydd ailgylchu wrth greu map o Gymru. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn dwysáu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am iaith yn gyson wrth amrywio'r arddull i gyd-fynd â gwahanol ffurfiau o ysgrifennu. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ychwanegu ansoddeiriau diddorol wrth ddisgrifio dinistr y Blitz yn Abertawe ac, erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n effeithiol ar draws y meysydd dysgu. At ei gilydd, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyflawni gwaith

i’r un safon tra’n cymhwyso eu medrau ysgrifenedig mewn gweithgareddau annibynnol.

Mae medrau mathemateg a rhifedd llawer o ddisgyblion yn gadarn. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae ganddynt afael dda ar ffeithiau rhif a data, er enghraifft wrth gyfrifo a chreu siart tali a graff o ganlyniadau sbwriel a gasglwyd ar draeth lleol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn darganfod gwerth rhifolion Rhufeinig er mwyn datrys problemau i greu hafaliadau. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae llawer yn adeiladu’n dda ar ddysgu blaenorol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau datrys problemau i gymhwyso eu medrau rhif mewn cyd-destunau priodol. Yn gyffredinol, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon â'u medrau mathemateg heb gefnogaeth oedolyn.

Mae medrau digidol bron bob disgybl yn gwella’n gyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o raglenni cyfathrebu yn hyderus, er enghraifft wrth fewnosod lluniau tra’n cynllunio bwydlen iachus. Mae rhan fwyaf disgyblion Blwyddyn 4 yn adnabod nodweddion creaduriaid ac yn bwydo gwybodaeth berthnasol i ddiagram canghennog. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio fformiwla er mwyn cyflwyno gwybodaeth yn fedrus am atyniadau mwyaf poblogaidd Cymru, gan gyfrifo’r gost yn drefnus o fewn cyllideb benodol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o raglenni ac apiau i gefnogi eu dysgu.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn creu sgript am stori gyfarwydd ac yn ei chyflwyno yn egnïol ar lwyfan yr ardal berfformio. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mwynhau gweithgareddau celf ac yn gwneud dewisiadau bwriadus wrth ddethol adnoddau gwahanol i gyfleu darluniau diddorol. Maent yn efelychu gwaith artistiaid yn fedrus ac yn amrywio’r tôn a’r lliw yn ofalus, er enghraifft wrth gyfleu’r môr a’r awyr. Caiff cynnyrch creadigol disgyblion ei arddangos yn chwaethus o fewn yr amgylchedd dysgu lliwgar sy’n meithrin eu balchder at eu gwaith.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae eu hymddygiad yn dda mewn gwersi, yn ystod amseroedd egwyl ac wrth weithio’n annibynnol. Ar draws yr ysgol, mae’r disgyblion yn groesawgar i ymwelwyr ac yn trafod agweddau o fywyd yr ysgol yn fyrlymus a chyffrous. Maent yn dal drysau ar agor i’w cyfoedion, ac yn cyfarch oedolion yn gyfeillgar wrth gerdded yn bwyllog a threfnus o amgylch yr ysgol. Un o agweddau nodedig yr ysgol yw’r ffordd mae’r disgyblion yn siarad yn hyderus gydag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae bron bob disgybl yn dangos balchder am yr ysgol ac yn teimlo’n ddiogel o fewn y naws gynhwysol. Mae’r disgyblion yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd angen cymorth arnynt. Yn ogystal, mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o’r byd digidol a sut i gadw eu hunain, ac eraill, yn ddiogel ar-lein.

Mae bron bob disgybl yn mwynhau dod i’r ysgol ac yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol at eu

dysgu. Er enghraifft, maent yn mynegi barn a chynnig syniadau gwerthfawr am gynnwys eu gwersi o fewn themâu tymhorol. Mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau’r athrawon ac yn canolbwyntio’n dda ar eu gwaith am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi’n llawn ac yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig, sydd yn ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn fodlon trafod eu gwaith gyda’u cyfoedion yn ogystal ag ymwelwyr. Maent yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i’w syniadau. Maent yn cydweithio mewn parau neu grwpiau i ddatrys problemau mewn gweithgareddau priodol, yn aml heb gefnogaeth oedolion, er enghraifft wrth ddefnyddio strategaeth ‘tri cyn fi’. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o hawliau plant. Siaradant yn hyderus am ‘hawl y mis’ a beth mae’n ei olygu iddynt. Mae’r disgyblion hŷn yn egluro gydag aeddfedrwydd bwysigrwydd cydraddoldeb fel rhan o'u gwaith. Maent yn nodi eu cyfrifoldebau ar gyfer bod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus trwy greu siarter hawliau ar gyfer eu dosbarthiadau eu hunain. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i’r rhai sydd mewn angen, er enghraifft trwy drefnu gweithgareddau codi arian i helpu pobl yr Wcráin. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar a chynhaliol.

Mae amrywiaeth o grwpiau llais y disgybl yn weithgar ar draws yr ysgol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o’u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau sy’n cael effaith sylweddol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor lles yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffilm i ysbrydoli eu cyfoedion i fod yn ddysgwyr iach ac hyderus. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o’r angen i gadw’n heini a bwyta’n iach. Maent yn esbonio pam y mae’n fuddiol bwyta ffrwythau yn ystod amseroedd egwyl er enghraifft, a pham nad yw yfed diodydd llawn siwgr yn synhwyrol. Mae bron bob disgybl yn gwerthfawrogi ac yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd, fel 'milltir y dydd'.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan bob aelod o staff berthynas weithiol hynod gadarn gyda disgyblion sy’n cefnogi eu lles a’u haddysg yn llwyddiannus. Maent yn annog parch a chwrteisi sydd yn arwain at ethos cynhaliol yr ysgol. Un o elfennau mwyaf nodedig yr ysgol yw adnabyddiaeth drylwyr staff o anghenion bob disgybl, sydd yn cyfrannu’n gadarn at ddarparu amgylchedd dysgu teuluol. Mae hyn yn cefnogi llawer o ddisgyblion i fentro a goresgyn heriau er mwyn datblygu eu lles emosiynol a’u medrau hyd eithaf eu gallu.

Mae staff yn hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg yn hynod lwyddiannus mewn gweithgareddau cyfoes yn y dosbarth a thu hwnt. Maent yn meithrin dealltwriaeth disgyblion yn fedrus o fanteision siarad Cymraeg, a balchder bod yn aelod o’r ysgol a’r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae aelodau’r cyngor ysgol yn codi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg trwy rannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda thrigolion lleol fel rhan o ddathliadau cenedlaethol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy’n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn fedrus am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth ddysgu am enwogion hanesyddol, a darparu cyfleoedd iddynt fwynhau cerddoriaeth draddodiadol a chyfoes Gymraeg. Mae staff yn trefnu ymweliadau sy’n cefnogi ymwybyddiaeth disgyblion o’u hardal leol yn fwriadus, er enghraifft wrth iddynt ymweld â Chastell Margam. Mae hyn yn cyfrannu’n hynod gadarn at ddwysàu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth o fewn yr ardal leol ac yn genedlaethol.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu yn gelfydd sydd yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cynnwys syniadau disgyblion a’u teuluoedd yn berthnasol, sydd yn ei dro yn cefnogi athrawon i gynllunio cwricwlwm cytbwys. Mae staff yn cyflwyno gweithgareddau sy’n hyrwyddo disgyblion i ymroi’n llwyr i’w dysgu. Mae hyn yn arwain yn gadarn at baratoadau’r ysgol i gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae cymuned yr ysgol yn cyfrannu’n fuddiol at y weledigaeth ‘Ein Cymuned, Ein Dyfodol, Law yn Llaw’, sy’n meithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac hyderus mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio’n hynod effeithiol wrth ddarparu gweithgareddau sy’n diwallu anghenion pob disgybl. Mae staff yn gweithredu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus ac yn trefnu eu dosbarthiadau a’r ardaloedd allanol yn feistrolgar er mwyn datblygu medrau disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae llawer o athrawon yn cyflwyno gweithgareddau sy’n cefnogi disgyblion i ddysgu gydag arweiniad oedolyn, ac i gymhwyso eu medrau yn gynyddol annibynnol. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau lleiafrif yr athrawon yn ddigon uchel ar bob achlysur er mwyn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd i’r safon uchaf posibl. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyflawni gwaith sy’n sicrhau cynnydd adeiladol yn eu medrau mewn gweithgareddau annibynnol ar draws y meysydd dysgu.

Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu cryfderau a’u meysydd i'w gwella a rhai eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn rhannu arferion gyda’i gilydd yn llwyddiannus trwy ‘Cliwiau Clyfar’, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i oresgyn anawsterau. Mae staff yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i helpu disgyblion i ddeall a datblygu eu gwybodaeth a’u medrau. Maent yn ymestyn atebion disgyblion yn fedrus sydd yn eu cynorthwyo i ymhelaethu ar eu syniadau cychwynnol. Mae athrawon yn canmol yn briodol ac yn cynnig adborth cyson er mwyn dathlu cyflawniadau disgyblion. At ei gilydd, nid yw adborth ychydig o athrawon yn cefnogi disgyblion i wybod beth a sut i wella eu gwaith er mwyn gwneud cynnydd yng nghamau nesaf eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofalu am, a hyrwyddo, anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn cael ei chynllunio’n ofalus a’i weithredu’n hynod

effeithiol. Mae adnabyddiaeth staff o ddisgyblion unigol a'u teuluoedd yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynorthwyo'r staff i ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i heriau niferus, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â difreintedd a thlodi.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod anghenion lles ac emosiynol disgyblion yn flaenoriaeth. Mae'r ethos yn ofalgar a chynhwysol lle mae parch at bob unigolyn yn hynod effeithiol ac yn rhan o wead a phrosesau dyddiol yr ysgol. Cefnogir hyn gan gynllun hyrwyddo lles disgyblion sy'n cwmpasu ystod dda o raglenni cymorth effeithiol. Mae'r cynllun yn cynnwys darpariaeth cwnsela, rhaglenni sy'n cynorthwyo'r staff i adnabod anghenion emosiynol disgyblion, ac i weithredu camau i adeiladu eu hunanhyder, dycnwch a'u hunan-werth. O ganlyniad i'r cynllun lles, mae disgyblion sy'n teimlo'n bryderus yn elwa o dreulio cyfnodau mewn hafan dawel i rannu gofidiau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac yn cael ei gwerthfawrogi gan rieni a disgyblion.

Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion teuluoedd difreintiedig. Maent yn sicrhau bod holl weithgareddau'r ysgol yn hygyrch i'r disgyblion, ni waeth beth yw eu cefndir. Mae cyfleoedd i ddisgyblion elwa o ddarpariaeth gerddorol, ddiwylliannol a chreadigol gyfoethog yr ysgol yn ogystal ag unrhyw weithgaredd allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth a chynhaliaeth ymarferol heb dynnu sylw at unigolion a'u sefyllfa er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb.

Mae gan y cydlynydd ADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion addysgol disgyblion. Mae staff yn myfyrio ar, a gwerthuso'r, prosesau ac yn adnabod cryfderau a'r meysydd sydd angen cefnogaeth bellach yn dda. Mae hyn yn cynnwys y camau at symud i'r drefn newydd o weithredu'r Ddeddf Diwygio ADY. Caiff cynlluniau dysgu unigol eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni, ac addasir y ddarpariaeth os nad yw'r disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. O ganlyniad i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gyson, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd gyda ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cefnogi disgyblion i ddysgu am faterion sy'n ymwneud â chredoau amrywiol yn ogystal a myfyrio ar gwestiynau sylfaenol a'u gwerthoedd eu hunain. Cynhelir gwasanaethau cyson a darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt yn rheolaidd. Maent yn frwdfrydig i rannu cyflwyniadau â'u cyfoedion ar destunau gwahanol, gan adlewyrchu gwaith y dosbarthiadau a'r cynghorau amrywiol, fel y cyngor lles. Yn ddiweddar, cyflwynodd disgyblion ar frig yr ysgol wybodaeth am fywyd Martin Luther King gan efelychu'r negeseuon yn effeithiol. Telir sylw perthnasol i gymunedau lleiafrifol ac maent yn trafod materion pwysig yn gyson. Mae cynhwysiant a chydraddoldeb yn elfen gref o amgylchedd dysgu yr ysgol.

Mae llais disgyblion yn cael lle teilwng ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cyfranogi mewn nifer o bwyllgorau, er enghraifft y cenhadon digidol, cenhadon chwaraeon, pwyllgor eco a'r cyngor ysgol. Mae'r 'bydis buarth' yn helpu disgyblion sydd yn teimlo'n unig ambell waith yn ystyrlon. Yn ogystal, mae'r pwyllgorau yn trefnu gweithgareddau buddiol er mwyn casglu arian a chyfrannu at elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy'n cynnwys clybiau chwaraeon allgyrsiol fel y clwb pêl-droed a'r clwb rhedeg. Mae'r meysydd chwarae eang yn caniatáu staff i drefnu a darparu ystod o weithgareddau awyr agored, sydd yn cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion mewn gweithgareddau ymarfer corff. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant ac ymagweddau cadarn at hybu diogelwch a lles disgyblion, ac mae trefniadau diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt peri pryder. Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion mewn trefniadau cadarn gan gydweithio'n agos â rhieni ac asiantaethau allanol, fel y bo angen.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth, arweinwyr a'r holl staff yn cydweithio'n  hynod effeithiol i greu amgylchedd dysgu bwriadus, gofalgar ac ysbrydoledig i'r disgyblion. Mae arweinyddiaeth gryf a chadarn y pennaeth yn sicrhau cyfeiriad strategol clir a phwrpasol sy'n ennyn brwdfrydedd staff i ymroi o'u gorau dros yr ysgol a'i chymuned. Mae'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni wedi creu gweledigaeth bwrpasol sydd wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu balchder disgyblion tuag eu hunain a'u hardal leol, gyda phwyslais clir ar gydweithio er mwyn hyrwyddo lles ac addysg, gofal ac hapusrwydd ar gyfer pob disgybl. Cyfranna hyn yn dda i'r ffaith fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau hynod gadarn tuag eu dysgu ac yn ymfalchïo mewn perthyn i'r ysgol.

Mae pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth o'r newidiadau addysgol cyfredol. Er enghraifft, mae staff yn arwain a datblygu eu cynlluniau ar gyfer y meysydd dysgu a phrofiad fel rhan o'u paratoadau at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn gadarn ac yn cyfrannu'n werthfawr at eu datblygiad proffesiynol. Mae'r ystod dda o gyfleoedd i staff ddatblygu'n broffesiynol ac mae arweinwyr yn eu harfogi i ymchwilio i, a gweithredu, dulliau addysgu a dysgu newydd, Er enghraifft, mae staff wedi mabwysiadau dull o gyflwyno cyfleoedd i ddisgyblion gyfarch ei gilydd a mynegi eu teimladau yn ddyddiol fel rhan annatod o'r ddarpariaeth.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn effeithiol ac yn cynnwys pob aelod o staff. Mae'r amserlen fonitro yn sicrhau bod y cylch hunanwerthuso yn broses barhaus ac yn arwain at welliant. Er bod y pandemig wedi lleihau ychydig ar y gweithgareddau monitro, mae arweinwyr ac athrawon wedi parhau i graffu ar lyfrau disgyblion, casglu barn rhieni, trafod gyda disgyblion a chynnal teithiau dysgu yn effeithiol. Mae'r adroddiadau hunanwerthuso yn adnabod cryfderau ynghyd â'r agweddau ar gyfer gwelliant yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau bob tro'n ddigon manwl nac yn darparu gwybodaeth sy'n ddigon meintiol i ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn gwella safonau disgyblion. Defnyddir y wybodaeth o'r trefniadau monitro yn briodol i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi camau gweithredu addas a thargedau i fesur cynnydd. Mae'n canolbwyntio'n  gadarn ar godi lles a chynnydd ym medrau'r disgyblion, gan gyfeirio at flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yr ysgol.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn dda. Maent wedi eu rhannu’n is-bwyllgorau er mwyn mynd i’r afael ag agweddau pwysig o’r safonau a’r ddarpariaeth. Mae hyn yn eu cefnogi i ddwysáu eu dealltwriaeth a datblygu eu gallu i gefnogi a herio’r arweinwyr yn gyson. Yn gyffredinol, mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o gryfderau’r ysgol ynghyd â’r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Er bod amlder eu hymweliadau monitro wedi eu cyfyngu yn ddiweddar, mae’r aelodau’n parhau i gyfarfod yn rhithiol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol a thrafod gwaith yr ysgol. Yn ogystal, maent yn derbyn gwybodaeth a chyflwyniadau defnyddiol gan y pennaeth ac arweinwyr am waith yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta’n iach ac yfed dŵr fel rhan o ddarpariaeth iechyd a lles disgyblion.

Mae arweinwyr, ar y cyd â'r bwrsar, yn rheoli’r cyllid yn grefftus gan sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy’n cefnogi’r dysgu yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau lefelau staffio yn bwrpasol. Mae defnydd crefftus o’r grant datblygu disgyblion yn cyfrannu’n werthfawr at ddatblygu medrau a lles grwpiau o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas glòs â’r rhieni a’r gymuned ehangach. Yn ddiweddar, maent wedi cynnal cyflwyniad i esbonio’r  Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol yn cywain barn rhieni yn rheolaidd, er enghraifft wrth ddarparu holiadur am ddarpariaeth gwaith cartref. O ganlyniad i ddeilliannau’r holiadur, addaswyd y ddarpariaeth wrth gyflwyno gweithgareddau hwyliog o fewn calendr misol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i rieni gefnogi medrau eu disgyblion gartref.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2022